Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**

# **Diwygio'r Rheolau Sefydlog:** Rheolau Sefydlog 11.10 a 12.6(i)

Mawrth 2026

Yn unol â Rheol Sefydlog 11.7(iv), y Pwyllgor Busnes sy'n gyfrifol am wneud argymhellion ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Senedd, gan gynnwys unrhyw gynigion ar gyfer ail-wneud y Rheolau Sefydlog neu eu diwygio.

Mae'r adroddiad hwn yn argymell dau ddiwygiad i'r Rheolau Sefydlog, i ddileu'r cyfyngiadau o ran pryd y caiff y Senedd gyfarfod fel arfer. Mae'n argymell bod y diwygiadau hyn i ddod i rym o ddechrau'r Seithfed Senedd, er mwyn gwneud y mwyaf o'r hyblygrwydd sydd ar gael i'r Seithfed Senedd pan fydd yn ystyried y ffordd orau o drefnu ei busnes ar gyfer y cyfarfod llawn a'r pwyllgorau.

Cynigir y diwygiadau ar ôl ystyried argymhellion Pwyllgor Senedd y Dyfodol yn ei adroddiad *Busnes seneddol yn y Seithfed Senedd*.

# 1. Cefndir

**1.** Yn ei adroddiad *Busnes seneddol yn y Seithfed Senedd*, argymhellodd Pwyllgor Senedd y Dyfodol fel a ganlyn:

> *"Er mwyn rhoi'r hyblygrwydd i'r Seithfed Senedd drefnu busnes yn y ffordd y mae'n penderfynu sydd orau, rydym yn argymell bod y Pwyllgor Busnes yn ystyried a ddylid dileu Rheol Sefydlog 12.6 (i) (sy'n ymwneud â phryd y dylid cynnal Cyfarfodydd Llawn fel arfer), cyn diwedd y Chweched Senedd."*[1]

**2.** Argymhellodd Pwyllgor Senedd y Dyfodol hefyd fod y Pwyllgor Busnes:

> *"[...] yn ystyried a ddylid diwygio Rheol Sefydlog 11.10 (sy'n ymwneud â'r amseroedd y dylid amserlennu busnes fel arfer ynddynt) cyn diwedd y Chweched Senedd."*[2]

# 2. Ystyriaeth y Pwyllgor Busnes

**3.** Trafododd y Pwyllgor Busnes argymhellion Pwyllgor Senedd y Dyfodol, a'r opsiynau ar gyfer mynd i'r afael â hwy, yn ei gyfarfod ar 16 Hydref 2025.

**4.** Yn dilyn y cyfarfod hwn, ymgynghorodd Rheolwyr Busnes â'u grwpiau gwleidyddol cyn dychwelyd i wneud penderfyniadau mewn cyfarfod ar 13 Tachwedd 2025.

# 3. Penderfyniad

**5.** Mewn perthynas â Rheol Sefydlog 11.10 (sy'n ymwneud ag ystod amser ar gyfer busnes), cytunodd y Pwyllgor Busnes i argymell diwygio'r Rheol Sefydlog hon drwy ddileu'r holl destun ar ôl y gair "*tebygol*" (gweler Atodiad A am y newidiadau wedi'u tracio).

**6.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnig dileu Rheol Sefydlog 12.6(i) (sy'n ymwneud â'r gofyniad i gyfarfodydd llawn gael eu cynnal fel arfer ar ddydd Mawrth a dydd Mercher a dechrau am 1.30pm).

---

[1] Senedd Cymru, Pwyllgor Senedd y Dyfodol, *Busnes seneddol yn y Seithfed Senedd*, Mai 2025, t.21
[2] Ibid t.37

**7.** Nod y newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog yw gwneud y mwyaf o'r hyblygrwydd sydd ar gael i'r Seithfed Senedd o ran pennu ei hamserlen ar gyfer busnes seneddol, wrth gadw'r gofyniad i'r amserlen roi sylw i gyfrifoldebau'r Aelodau tuag at y teulu a'r etholaeth, ac i'w trefniadau teithio tebygol.

**8.** Ar 13 Tachwedd 2025, cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnig y newidiadau i'r Rheolau Sefydlog a amlinellir yn yr adroddiad hwn. Gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r Rheolau Sefydlog arfaethedig newydd yn Atodiad B.

# 4. Amseru

**9.** Gan fod y newidiadau arfaethedig yn ymwneud â'r cynnydd yn nifer yr Aelodau yn y Seithfed Senedd, cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnig y dylent ddod i rym ar ddechrau'r Seithfed Senedd.

# Atodiad A: Newidiadau arfaethedig i'r Reolau Sefydlog, a nodiadau esboniadol

| **RHEOL SEFYDLOG 11 – Trefn Busnes** | | |
|---|---|---|
| **Amserlen y Senedd** | | Cadw'r is-bennawd |
| 11.10 | Rhaid i amserlenni o dan Reol Sefydlog 11.9 roi sylw i gyfrifoldebau'r Aelodau tuag at y teulu a'r etholaeth neu'r rhanbarth etholiadol, ac i'w trefniadau teithio tebygol~~; ac fel rheol dylent geisio osgoi amserlennu busnes cyn 9.00am neu ar ôl 6.00pm ar unrhyw ddiwrnod gwaith~~. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br><br>Byddai'r newid arfaethedig yn dileu'r gofyniad i'r Pwyllgor Busnes fel rheol geisio osgoi amserlennu busnes cyn 9.00am neu ar ôl 6.00pm ar unrhyw ddiwrnod gwaith. |
| **RHEOL SEFYDLOG 12 – Busnes yn y Cyfarfodydd Llawn** | | |
| **Cyfarfodydd Llawn** | | Cadw'r is-bennawd |
| 12.6 | Rhaid i gyfarfodydd llawn fel arfer~~:~~<br>~~(i) gael eu cynnal ar ddydd Mawrth a dydd Mercher a'u bod yn dechrau am 1.30pm;~~<br>~~(ii)~~ ystyried busnes y llywodraeth yn gyntaf. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br><br>Byddai'r newid arfaethedig yn dileu'r gofyniad i gyfarfodydd llawn gael eu cynnal fel arfer ar ddydd Mawrth a dydd Mercher a dechrau am 1.30pm. |

# Atodiad B: Y Rheolau Sefydlog fel y'u diwygiwyd

**RHEOL SEFYDLOG 11 – Trefn Busnes**

Amserlen y Senedd

11.10 Rhaid i amserlenni o dan Reol Sefydlog 11.9 roi sylw i gyfrifoldebau'r Aelodau tuag at y teulu a'r etholaeth, ac i'w trefniadau teithio tebygol.

**RHEOL SEFYDLOG 12 – Busnes yn y Cyfarfodydd Llawn**

Cyfarfodydd Llawn

12.6 Rhaid i gyfarfodydd llawn fel arfer ystyried busnes y llywodraeth yn gyntaf.